Arolwg Newsplan (Cymru) o ddefnydd papurau newydd, 2004
Newsplan (Cymru) Survey of newspaper use, 2004

Sylwadau ar Arolwg Newsplan (Cymru), 2004

Rhagymadrodd
Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod Chwefror a Mawrth 2004, yn dilyn arolwg cynharach a gynhaliwyd yn ystod Chwefror a Mawrth 2002. Yn yr ail arolwg defnyddiwyd ffurflen unffurf drwy'r Deyrnas Gyfunol felly er bod y cwestiynau a holwyd yn y ddau arolwg yn debyg nid oeddynt yn union yr un fath. Mae'r sylwadau hyn yn cymharu canlyniadau arolwg Cymru 2004 gyda chanlyniadau 2002 a chanlyniadau amodol arolygon 2004 mewn rhanbarthau eraill o Newsplan. Bydd adroddiad terfynol ar yr arolwg drwy'r Deyrnas Gyfunol i'w weld ar safle we Newsplan y Llyfrgell Brydeinig erbyn hydref 2004. Yn y sylwadau hyn rhoddir y canran yn ol y cyfanrif agosaf ac yn yr adroddiad ystadegol (isod) rhoddir y canran yn ol y pwynt degol agosaf.

Ymateb cyffredinol
Roedd yr ymatebion yn gyffredinol yn debyg yn y ddau arolwg ac yng ngwahanol ranbarthau Newsplan. Roedd nifer uwch o ymatebion i arolwg 2004 nac i arolwg 2002 yng Nghymru a thrwy Brydain yn gyffredinol. Yng Nghymru derbyniwyd 287 o ymatebion yn 2004 oddi wrth un ar bymtheg o awdurdodau, o'i gymharu a 246 o ymatebion oddi wrth deg awdurdod yn 2002.

Pellter teithio
Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr wedi teithio llai na 20 milltir, ond o holl ranbarthau Newsplan, yng Nghymru y mae defnyddwyr yn teithio bellaf. Yng Nghymru yr oedd bron 68% o ddefnyddwyr wedi teithio llai na 20 milltir, ond dros 16% wedi teithio dros 100 milltir, cynnydd ar ffigur 2002 a chryn dipyn yn uwch nac yn unrhyw ranbarth arall o Newsplan.

Sut i ddod o hyd i bapurau newydd
Roedd y rhan fwyaf o bobl yn dod i wybod am bapurau newydd drwy gysylltiad uniongyrchol gyda llyfrgelloedd a chyd-weithwyr neu gyfeillion. Yng Nghymru llai na 7% oedd wedi defnyddio Adroddiad Newsplan a llai na 4% arall oedd wedi defnyddio'r Internet. Cafwyd canlyniadau tebyg mewn ardaloedd eraill.

Mathau o bapurau newydd a ddefnyddiwyd
Papurau lleol yw'r papurau mwyaf poblogaidd o lawer ac yng Nghymru defnyddiodd 74% o bobl bapurau lleol (bron yn union yr un fath a 2002). Yn arolwg 2002 y categori ddaeth yn ail oedd papurau cenedlaethol Cymru (28%), ond ni chynhwyswyd y categori hwn yn arolwg 2004, er bod rhai pobl wedi newid y ffurflen i'w gynnwys. Yn 2004 y categori ddaeth yn ail yng Nghymru oedd papurau rhanbarthol (29%), llawer uwch nac unrhyw ranbarth arall o Newsplan.

Oed y papurau newydd
Roedd dosbarthiad eang i oed y papurau a ddefnyddiwyd. Yng Nghymru yr oedd y defnydd o bapurau newydd dros 100 oed wedi cynyddu dros 50% ers 2002 (29% yn lle 18%), ac fe gredir bod hyn yn adlewyrchu gwaith Newsplan yn darparu mwy o'r papurau hyn o gwmpas y wlad.

Natur yr wybodaeth a geisiwyd
Y pynciau mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn 2004 oedd ysgrifau coffa (34%), digwyddiadau lleol (31%), geni, priodi a marw (27%) a chwestau i farwolaethau (23%). Yr oedd diddordeb is ond pendant mewn materion fel chwaraeon (19%), diwylliant (17%) a gwleidyddiaeth (17%).

Pwrpas yr ymchwil
Yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn dilyn diddordebau preifat (33%) neu hanes teulu (22%), megis ymchwilio coeden deuluol (12%). Diddordebau poblogaidd eraill oedd hanes lleol (19%), defnydd ar gyfer gwaith (13%), cyhoeddiad newydd (12%) ac ymchwil academaidd (12%). Roedd defnydd ar gyfer addysg neu waith ysgol yn is (6%) gan awgrymu bod lle i gynyddu'r defnydd o bapurau newydd mewn addysg.

Amlder defnyddio papurau newydd
Roedd 20% o ddarllenwyr yn defnyddio papurau newydd am y tro cyntaf. Disgrifiai 36% o ddarllenwyr eu hunain fel defnyddwyr achlysurol a 40% fel defnyddwyr cyson.

Defnydd yn y dyfodol
Roedd 51% o bobl yn bwriadu defnyddio papurau newydd eto o fewn ychydig wythnosau, a bwriadai 25% eu defnyddio rywbryd eto. Roedd 17% a dim bwriad i'w defnyddio eto a doedd 7% arall ddim yn disgwyl y byddant yn eu defnyddio byth eto.

Hwylustod
Roedd defnyddio papurau newydd yn rhwydd i'r rhan fwyaf o bobl, naill ai yn syml (60%) neu yn ddigon rhwydd (34%). Dywedodd rhai ei fod yn waith blinedig a diflas (3%) neu yn anodd (2%).

Llwyddiant a darganfyddiadau annisgwyl
Dywedodd 77% o bobl iddynt fod yn llwyddiannus yn eu gwaith y diwrnod hwnnw. Methodd 13% i ddod o hyd i'r hyn yr oeddynt yn chwilio amdano. Dywedodd 79% o bobl eu bod wedi darganfod rhywbeth annisgwyl mewn papur newydd ryw dro. Doedd 13% erioed wedi dod o hyd i unrhyw beth annisgwyl wrth weithio gyda phapurau newydd.

Mynegeion a chyfeirlyfrau
Roedd 40% o ddefnyddwyr wedi defnyddio mynegeion neu gyfeirlyfrau ryw dro, ond doedd 53% erioed wedi'u defnyddio. Roedd 51% yn barnu y byddai'n werthfawr cael mwy o fynegeion.

Fformat
Yng Nghymru y fformat a ddefnyddiwyd fwyaf oedd microffilm (64%, i fyny o 42% yn 2002), gyda chopïau papur yn ail (54%, i lawr o 61%). Bu cynydd mawr yn y nifer oedd yn defnyddio papurau newydd ar-lein (13%, i fyny o 0.4%) ac ar CD-ROM (8%, i fyny o 2%).

Hoff fformat
Am y tro cyntaf, y fformat mwyaf poblogaidd oedd microffilm (33%, i fyny o 26% yn 2002) gyda papur bellach yn ail (31%, i lawr o 50%). Roedd 7% yn meddwl mai defnydd ar-lein oedd rwyddaf a 8% o blaid CD-ROMS. Debyg iawn bod y fformat y mae'r defnyddiwr fwyaf cyfarwydd ag ef yn dylanwadu ar ei ddewis o hoff fformat.

Problemau gyda microffilm
Dywedodd 60% o ddefnyddwyr nad oeddynt erioed wedi cael problemau wrth ddefnyddio microffilm. Dywedodd 17% eu bod wedi cael problemau ar ryw adeg, gan enwi problemau gydag ansawdd y ffilm ac anhawster defnyddio'r offer oedd ar gael. Ni atebwyd y cwestiwn gan 30% o'r darllenwyr.

Sawl ril
Defnyddiwyd tair ril neu fwy gan 39% o ddefnyddwyr, dwy ril gan 12%, a dim ond un ril gan 15%. Ni atebwyd y cwestiwn gan 33% o ddefnyddwyr.

Comments on the Newsplan (Cymru) Survey, 2004

Introduction
The survey was carried out during February and March 2004 and followed an earlier survey carried out during February and March 2002. The second survey used a standard form developed for use throughout the United Kingdom, so the questions asked in the two surveys were similar but not identical. These comments compare the results of the Wales 2004 survey with those of 2002 and the provisional returns of the surveys of 2004 from other Newsplan regions. A final report on the survey for the United Kingdom will be available on the British Library Newsplan website by the autumn of 2004. In these comments the percentages are rounded out to the nearest whole number while in the statistical report (below) the percentages are given to the nearest decimal point.

General response
The responses were broadly similar in both surveys and throughout the various Newsplan regions. There was a greater number of responses to the 2004 survey than in 2002, both in Wales and overall. In Wales 287 responses were returned from sixteen authorities in 2004, compared to 246 from ten authorities in 2002.

Distance travelled
Most users of newspapers travelled less than 20 miles, but of all the Newsplan regions it was in Wales that newspaper users travelled furthest. In Wales nearly 68% of users travelled less than 20 miles, but over 16% travelled over 100 miles, an increase on the 2002 figure and considerably greater than any other Newsplan region.

Where to find newspapers
Most users learnt about newspapers by direct contact with libraries and with friends or colleagues. In Wales less than 7% had used the Newsplan Report and less than 4% had used the Internet. Findings in other Newsplan regions were similar.

Types of newspapers used
Local newspapers are by far the most heavily used category of newspapers and in Wales about 74% used local newspapers (almost identical to 2002). The 2002 survey showed that the second highest category was Welsh national newspapers (28%), but this category was not an option in the 2004 survey, although some respondents altered the form to add in the category. In 2004 the second highest category in Wales was regional newspapers (29%), much higher than any other Newsplan region.

Age of newspapers
The age of newspapers used is widely spread. In Wales the use of local newspapers over 100 years old has increased by over 50% since 2002 (29% instead of 18%), and this is believed to reflect the wider availability of these newspapers brought about by the Newsplan programme.

Information sought
The most popular topics in Wales in 2004 were obituaries (34%), local events (31%), births, marriages and deaths (27%) and inquests (23%). There was significant but lower level of interest in topics such as sport (19%), culture (17%) and politics (17%).

Purpose of research
Most research was for private interest (33%) or family history (22%), such as a family tree (12%). Other popular uses were local history (19%), use for work (13%), in a new publication (12%) or academic research (12%). Use for educational or school work was lower (6%) suggesting there is room to increase the use of newspapers in education.

Frequency of use
20% of users were using newspapers for the first time. 36% described themselves as occasional users and 40% as regular users.

Future use
51% of users planned to use newspapers again in the next few weeks and 25% planned to use them some other time. 17% said they had no plans for further use and a further 7% did not expect to use newspapers again.

Ease of use
Most users found newspapers easy to use, either simple (60%) or fairly easy (34%). A few users found it tedious (3%) or difficult (2%).

Success and unplanned finds
77% of people said they had found what they were looking for that day. 13% said they had not found what they were seeking. 79% of people said they had found unexpected information in newspapers at some time. 13% said they had never found anything unexpected in the course of their work with newspapers.

Indexes and guides
40% of users had used indexes or guides at some time, but 53% had never used them. 51% thought the provision of more guides would be helpful.

Newspaper formats
In Wales the formats most used were microfilm (64%, up from 42% in 2002) and paper copies (54%, down from 61%). There was a large increase in the use of newspapers on-line (13%, up from 0.4%) and CD-ROMS (8%, up from 2%).

Preferred formats
Microfilm was, for the first time, the most popular format (33%, up from 26% in 2002). Paper was no longer the most popular format (31%, down from 50%). 7% thought on-line use was easiest and 8% thought CD-ROMS easiest. No doubt the format with which users are most familiar is reflected in the choice of preferred format.

Problems with microfilm
60% said they had never had problems with microfilm. 17% said they had experienced problems at some time and specified matters such as the poor quality of film and difficulty in using the equipment provided. 30% did not reply to the question.

Reels used
39% used three or more reels of film, 12% used two reels and 15% used only one reel. 33% did not reply to the question.

Canlyniadau Arolwg Newsplan (Cymru) 2004
Results of the Newsplan (Cymru) Survey, 2004

Cwestiynau'r arolwg **Survey questions**		**Atebion** **Replies**	**Canran** **% Total**
Ffurflenni wedi'u cwblhau Total completed forms received		287	100
1. TEITHIO PA MOR BELL / TRAVELLED HOW FAR			
< 20 milltir	< 20 miles	195	67.9
20-100 milltir	20-100 miles	40	13.9
> 100 milltir	> 100 miles	47	16.3
O'r tu allan i'r DU	Outside UK	3	1.0
Dim ateb	No reply	4	1.4
2.1 LLE I WELD PAPURAU NEWYDD / WHERE TO FIND NEWSPAPERS			
Adroddiad NEWSPLAN	NEWSPLAN Report	10	3.5
Taflenni cyhoeddus	Library promotional material	49	17.1
Cyfaill neu gydweithiwr	Friend or colleague	45	15.7
Y We	Internet	18	6.3
Ysgrifennu neu ffonio	Writing or phoning	75	26.1
Arall	Other	99	34.5
2.2 MATHAU A DDEFNYDDIWYD / SORT OF NEWSPAPERS USED			
Lleol	Local	211	73.5
Rhanbarthol	Regional	83	28.9
Papurau'r DU	UK National	59	20.6
Arall	Other	12	4.2
EICH DEFNYDD O'R PAPURAU NEWYDD / ABOUT YOUR USE OF NEWSPAPERS			
3.1 PA MOR HEN: LLEOL A RHANBARTHOL / HOW OLD: LOCAL AND REGIONAL			
< 20 mlynedd	< 20 years	80	27.9
20-100 mlynedd	20-100 years	134	46.7
> 100 mlynedd	> 100 years	83	28.9
Dim ateb	No reply	15	5.2
3.2 PA MOR HEN: PAPURAU PRYDEINIG / HOW OLD : NATIONAL			
< 20 mlynedd	< 20 years	57	19.9
20-100 mlynedd	20-100 years	26	9.1
> 100 mlynedd	> 100 years	25	8.7
Dim ateb	No reply	182	63.4
4. YMCHWIL HEDDIW / USERS SEEKING TODAY			
Lluniau	Pictures	29	10.1
Cyfraith neu drosedd	Legal or crime	35	12.2
Busnes neu arian	Business or financial	29	10.1
Gwleidyddiaeth	Political	50	17.4
Hanes ty	House history	29	10.1

Chwaraeon	Sport	53	18.5
Hysbysebion	Advertisements	28	9.8
Ysgrifau coffa	Obituaries	97	33.8
Diwylliant	Culture	48	16.7
Cwest i farwolaeth	Inquests	66	23.0
Hanes adeilad	Buildings history	35	12.2
Geni/priodi/marw	Births/marriages/deaths	77	26.8
Digwyddiadau lleol	Local events	90	31.4
Arall	Other	36	12.5
Dim ateb	No reply	10	3.5

5. DEFNYDD YR WYBODAETH / USE OF FINDS OR HITS

Cymryd copi	Take a copy	85	29.6
Ysgrifennu nodiadau	Write up notes	63	22.0
Ysgrifennu nodiadau i rywun arall	Write notes for others	33	11.5
Mewn cyhoeddiad newydd	Use in new publication	35	12.2
Mewn cyhoeddusrwydd	Use in publicity material	5	1.7
Mewn sgwrs	Use in talk	18	6.3
Addysg/project ysgol	Education/school project	16	5.6
Coeden deulu	Family tree	33	11.5
Diddordeb personol	Private interest	93	32.4
Hanes teulu	Family history	62	21.6
Hanes lleol	Local history	54	18.8
Ymchwil academaidd	Academic research	35	12.2
Ymchwil ar gyfer gwaith	Research for work	36	12.6
Arall	Other	10	3.5
Dim ateb	No reply	13	4.5

6.1 PA MOR AML / FREQUENCY OF USE

Y tro cyntaf	First time user	58	20.2
Defnydd achlysurol	Occasional user	103	35.9
Defnydd cyson	Regular user	115	40.1
Dim ateb	No reply	11	3.8

6.2 BWRIAD I DDEFNYDDIO ETO / PLAN USE AGAIN

Yr wythnosau nesaf	Next few weeks	147	51.2
Rywbryd	Sometime	73	25.4
Dim bwriad	No plans	48	16.7
Dim ateb	No reply	19	6.6

7. PA MOR HAWDD / HOW EASY TO USE

Syml	Simple	171	59.6
Digon rhwydd	Fairly easy	97	33.8
Anodd	Difficult	6	2.1
Blinedig	Tedious	8	2.8
Dim ateb	No reply	11	3.8

8.1 LLWYDDO I GAEL GWYBODAETH / FOUND WHAT YOU WERE LOOKING FOR

Do	Yes	220	76.7
Naddo	No	46	16.0
Dim ateb	No reply	23	8.0

8.2 DARGANFYDDIAD ANNISGWYL / UNPLANNED FIND

Do	Yes	226	78.7
Naddo	No	37	12.9
Dim ateb	No reply	23	8.0

9.1 DEFNYDDIO MYNEGAI/CYFEIRLYFR / USED INDEX/ GUIDE

Do	Yes	114	39.7
Naddo	No	153	53.3
Dim ateb	No reply	20	7.0

9.2 A FYDDAI MYNEGAI YN HELP? / WOULD INDEX/GUIDES HELP

Byddai	Yes	146	50.9
Na fyddai	No	33	11.5
Dim ateb	No reply	107	37.3

10.1 FFORMAT Y PAPUR A DDEFNYDDIWYD / USE OF NEWSPAPAER FORMATS

Microffilm	On microfilm	184	64.1
Copi papur	Paper copies	156	54.4
CD-ROM	On CD-ROM	30	10.5
Ar-lein	On-line	37	12.9
Dim ateb	No reply	55	19.2

10.2 PA FFORMAT SYDD RWYDDAF / EASIEST FORMAT TO USE

Microffilm	Microfilm	95	33.1
Copi papur	Paper copies	89	31.0
CD-ROM	CD-ROM	22	7.7
Ar-lein	On-line	21	7.3
Dim ateb	No reply	64	22.3

11.1 PROBLEMAU GYDA MICROFFILM / PROBLEMS WITH USE OF MICROFILM

Oedd	Yes	48	16.7
Nag oedd	No	173	60.3
Dim ateb	No reply	86	30.0

11.2 RILIAU O FICROFFILM A DDEFNYDDIWYD / REELS OF MICROFILMS USED

1 rîl	1 reel	44	15.3
2 rîl	2 reels	34	11.8
3 rîl neu fwy	3 reels or more	113	39.4
dim ateb	No reply	95	33.1

IMJ 7.6.04